




Ministry
of Justice

Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswilt Meddiannu Tai

Tuag at wasanaeth mwy cynaliadwy



Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 3 Ionawr 2020



Ministry
of Justice

Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai

Tuag at wasanaeth mwy cynaliadwy

**Ymgynghoriad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn
<https://consult.justice.gov.uk/>**

Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

- At:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb yn y broses o roi cyngor a chymorth mewn achosion cymryd meddiant o dai mewn llysoedd sifil yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn cynnwys aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol a'u cyrff cynrychioliadol proffesiynol, aelodau o'r farnwriaeth a rheoleiddwyr gwasanaethau cyfreithiol, ond nid dim ond y rhain.
- Hyd:** O 04/10/19 i 02/01/20
- Dylid cyfeirio ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat gwahanol) at:** James Wrigley
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 2817
E-bost: james.wrigley@justice.gov.uk
- Ffyrdd eraill o roi eich barn:** Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>
- Papur ymateb:** Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn maes o law.

Cynnwys

Rhagair	7
Crynodeb gweithredol	8
Cyflwyniad	11
Cefndir	12
Y cynigion	15
Asesiad o'r Effaith	21
Effaith ar Gydraddoldeb	22
Prawf Teulu	34
Holiadur	35
Amdanoch chi	37
Manylion cysylltu/Sut mae ymateb	38
Cwynion neu sylwadau	38
Copiau ychwanegol	38
Cyhoeddi ymateb	38
Grwpiau cynrychioliadol	38
Cyfrinachedd	40

Rhagair

Mae adfeddiannu tai a digartrefedd yn ddwy o'r problemau dinesig mwyaf difrifol y gall unrhyw unigolyn eu hwynebu. I nifer o bobl sy'n wynebu colli eu cartref, mae'r ofn o orfod mynd drwy broses gyfreithiol yn golygu eu bod yn mynd i'r llys heb gael cyngor na chynrychiolaeth gyfreithiol ymlaen llaw yn aml iawn.

Elfen graidd yn y cymorth sydd ar gael yn y maes hwn - a bydd yn parhau i fod felly - yw mynediad at gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus. Mae Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai (y Cynllun) yn cynnig gwasanaeth eirioli a chngor wyneb yn wyneb pwysig mewn argyfwng i unrhyw un sy'n wynebu achosion cymryd meddiant. Bydd unrhyw un sydd mewn perygl o gael ei droi allan neu o weld ei eiddo'n cael ei adfeddiannu yn gallu cael cynrychiolaeth a chngor cyfreithiol am ddim ar ddiwrnod y gwrandawriad, beth bynnag fo'i sefyllfa ariannol.

Mae darparwyr gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn gwneud gwaith amhrisiadwy bob diwrnod wrth gyflawni'r gwasanaeth hwn. Oherwydd rôl bwysig y Cynllun yn sicrhau mynediad at gyfiawnder ac yn datrys problemau cyfreithiol yn brydlon, mae cynaliadwyedd y gwasanaeth yn hollbwysig. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y Cynllun yn ymwybodol o'r newidiadau yn y system gyfiawnder ehangach.

Dros nifer o fisoedd, rydym wedi ystyried y ffordd ymlaen i sicrhau bod y Cynlluniau hyn mor gynaliadwy â phosibl, ac rydym wedi ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid er mwyn deall eu pryderon yn well ac er mwyn sicrhau eu bod yn arwain at fynediad effeithiol at gyfiawnder.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno model newydd, uchelgeisiol ar gyfer y Cynllun, a fydd yn fwy hyfyw yn ariannol i'r rhai sy'n ei gyflawni, gan sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth hollbwysig hwn i'r rhai sy'n dibynnu arno. Mae i gyfiawnder rôl arweiniol o ran sicrhau cymdeithas ddiogel, deg a ffyniannus. Gyda'i gilydd, rwy'n credu bod y cynigion hyn, fel pecyn, yn ymateb cyfrifol ac ymarferol i'r problemau oedd yn codi yn sgil ein proses o gasglu tystiolaeth.

Rwy'n annog ystod eang o bobl a sefydliadau i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, oherwydd mae'n bwysig ein bod ni'n clywed ac yn ystyried pob safbwynt.

Byddwn yn ystyried pob ymateb yn ofalus a byddwn yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad yn nes ymlaen.

Wendy Morton AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Crynodeb gweithredol

1. Mae'r Cynllun yn cynnig gwasanaeth eirioli a chyngor wyneb i wyneb mewn argyfwng "ar y diwrnod" i unrhyw un sy'n wynebu achosion cymryd meddiant yn y llys. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw un sydd mewn perygl o gael ei droi allan o'i gartref neu golli ei eiddo drwy adfeddiannu gael cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol am ddim ar ddiwrnod y gwrandawriad llys, beth bynnag fo'i sefyllfa ariannol. Mae gan y Cynllun rôl hollbwysig yn sicrhau mynediad at gyfiawnder i'r unigolion hyn.
2. Mae gwasanaethau cyfreithiol sifil yng nghyswllt meddiannu tai yn dod o dan gwmpas Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012 (LASPO), ac ar y sail hon y mae arian yn cael ei roi ar gyfer nifer o'r Cynlluniau hyn gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
3. Darparwyr cymorth cyfreithiol sydd â contractau â'r LAA sy'n cyflawni'r gwasanaeth hwn. Maent yn cynnwys cwmnïau cyfreithwyr a sefydliadau'r drydedd sector. Mae pob contract yn cyd-fynd â Chynllun penodol ac yn cael ei roi ar ôl proses gaffael gystadleuol i sicrhau safon y cyngor a gwerth i'r trethdalwr. Nid yw pob Cynllun yn cael ei ariannu drwy'r LAA. Mae nifer fechan o Gynlluniau meddiannu yn y llys sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol neu elusennau.
4. Oherwydd rôl hanfodol y Cynlluniau hyn yn sicrhau mynediad at gyfiawnder ac yn datrys problemau cyfreithiol yn brydlon, mae cynaliadwyedd y gwasanaeth yn bwysicach na dim. Mae'r Llywodraeth yn pryderu nad yw'r gwasanaethau hyn yn gynaliadwy ar hyn o bryd, yn ôl y dystiolaeth o ddarparwyr yn tynnu allan o contractau'n barhaus. Er bod parhad gwasanaeth wedi'i sicrhau hyd yma, mae risg y gall bylchau ymddangos yn y ddarpariaeth, a allai gael effaith negyddol, o bosibl, ar gleientiaid sy'n dibynnu ar y gwasanaeth hanfodol hwn. Hefyd, mae'r ffaith bod angen aildendro'r gwasanaeth ar ôl i ddarparwr adael yn ychwanegu at faich gweinyddol LAA ac nid yw'n darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.
5. Yn ychwanegol at hyn, mae'r cyd-destun ehangach y mae'r Cynllun yn gweithredu oddi mewn iddo yn newid. Mae rhaglen Ddiwygio GLITEM yn trawsnewid y prosesau y mae pobl yn eu defnyddio i ddatrys eu problemau cyfreithiol ac i ryngweithio â'r system gyfiawnder, ac yn ddiweddar mae GLITEM wedi diwygio ystad y llysoedd yn sylweddol hefyd. Y tu hwnt i bolisi cyfiawnder, mae diwygiadau diweddar i'r system lles, gan gynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol, wedi cael effaith ar sut mae gofyn cyflawni gwasanaethau fel y Cynllun hwn hefyd. Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn darparu gwasanaeth mor effeithiol â phosibl, mae'n bwysig bod polisi'r Cynllun yn ystyried newidiadau fel y rhain.

6. Dros nifer o fisoedd, rydym wedi bod yn ystyried y ffordd ymlaen er mwyn sicrhau bod y Cynlluniau hyn mor gynaliadwy â phosibl yn y dyfodol. Fe wnaethom gynnal arolwg â rhanddeiliaid yn ddiweddar fel sail ar gyfer yr ystyriaeth hon, gan ganiatáu i bartion â diddordeb i fynegi eu barn am y Cynllun presennol. Ein nod oedd bod yr arolwg yn llwyfan i ddarparwyr drafod eu profiad o weithio â chleientiaid a'u pryderon yn uniongyrchol, a'n cynorthwyo ni i siapio ein dull gweithredu ar gyfer y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Fe wnaethom ofyn i ymatebwyr am eu barn ynghylch beth sy'n gweithio'n dda, beth allai weithio'n well, a beth ddylai newid, yn eu barn nhw. Hefyd, fe wnaethom holi sut roedd newidiadau ehangach wedi effeithio ar sut roedd y Cynlluniau'n cael eu cyflawni, a beth gallem ei wneud i sicrhau bod cyflawni'r Cynllun yn dal i fod yn apelgar a'i fod yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i gleientiaid.
7. Cawsom 128 o ymatebion i'r arolwg hwn. Cafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r arolwg hwn gan ddarparwyr a oedd â contract Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai ar hyn o bryd. Ond, cawsom ymatebion gan ddarparwyr a oedd newydd dynnu allan o'r Cynllun, sefydliadau a oedd â diddordeb mewn gwneud cais am ymuno â'r Cynllun yn y dyfodol, cynghorwyr unigol a oedd ynghlwm â chyflawni'r gwasanaeth, ac aelodau o'r farnwriaeth hefyd.
8. Mae'r ymatebion hyn wedi ein helpu ni i benderfynu ar themâu cyffredin o ran beth sydd angen sylw. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon o amgylch y lefel bresennol o daliadau cydnabyddiaeth a chostau teithio sy'n golygu bod y Cynllun yn llai hyfyw yn ariannol i ddarparwyr, a phryderon fod ardaloedd daearyddol mawr ac anawsterau logisteg mewn ardaloedd gwledig yn golygu ei bod yn anodd cyflawni'r Cynllun. Cyfeiriodd ymatebwyr at nifer o faterion eraill heblaw cymorth cyfreithiol hefyd, fel effaith cyflwyno Credyd Cynhwysol a diwygiadau GLITEM i ystad y llys.
9. Rydym wedi defnyddio'r ymatebion hyn i'r arolwg i nodi nifer o gynigion rydym ni'n credu fydd yn sicrhau bod y Cynllun yn gynaliadwy ac yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i gleientiaid yn y dyfodol hefyd.
10. Caiff y cynigion eu cyflwyno'n fanwl yn y ddogfen ymgynghori hon, ond dyma'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r Cynllun, yn gryno:
 - Contractau ar gyfer llysoedd unigol yn hytrach nag ardaloedd daearyddol mwy;
 - Caniatáu i ddarparwyr hawlio ffi am y Cynllun yn ogystal â'r ffi Help Cyfreithiol dilynol;
 - Cyflwyno ffi fynychu benodol ar gyfer pob Cynllun yn lle'r taliad dim sesiwn fel sydd ar gael ar hyn o bryd; a
 - Chyflwyno costau teithio rhesymol fel rhan o elfen gystadlu'r cynnig.

11. Mae'r rhesymeg dros gynnig y newidiadau allweddol hyn wedi'i nodi yn y papur sydd i ddilyn. Ond rydym yn credu y bydd y newidiadau hyn, gyda'i gilydd, yn sicrhau bod y Cynllun yn hyfyw yn ariannol ac yn ymarferol o ran logisteg yn y dyfodol, er mwyn cynnal y gwasanaeth hanfodol hwn i'r cleientiaid hynny sy'n dibynnu arno.

Cyflwyniad

12. Mae'r papur hwn yn cyflwyno model newydd ar gyfer y Cynllun, er mwyn ymgynghori arno. Mae'r llywodraeth yn credu y bydd y model hwn yn hyfyw yn ariannol ac yn ymarferol o ran logisteg i ddarparwyr. Rydym yn credu y bydd y cynigion a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn yn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth hanfodol hwn i'r cleientiaid sy'n dibynnu arno.
13. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau cyfreithiol sifil yng nghyswllt materion tai yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol a'u cyrff cynrychioliadol proffesiynol, aelodau o'r farnwriaeth a rheoleiddwyr gwasanaethau cyfreithiol.
14. Rydym wedi ystyried y goblygiadau ar gyfer y Gymraeg wrth ddatblygu'r cynigion hyn ac wedi cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ymgynghoriad ar wefan y Llywodraeth
15. Mae'r papur hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n gofyn am safbwyntiau ynghylch ein cynigion ar gyfer diwygio. Ochr yn ochr â'r papur hwn, rydym wedi cyhoeddi Asesiad o Effaith, sy'n cyflwyno amcangyfrif o'r effaith y byddai'r cynigion yn ei chael, petaent yn cael eu rhoi ar waith. Rydym hefyd wedi gwahodd ymatebwyr i ddarparu tystiolaeth a allai ein helpu ni i ystyried yr effaith bosibl ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig, yn unol â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
16. Mae copïau o'r papur ymgynghori'n cael eu hanfon at y canlynol:
 - Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai
 - Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr
 - Rhwydwaith Canolfannau'r Gyfraith
 - Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol
 - Cynghrair Gwasanaethau Cyngor
 - Shelter
 - Cyngor ar Bopeth
17. Nid yw hon yn rhestr gyfyngedig na hollgynhwysol a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn am y cynigion a gyflwynir yn y papur hwn.
18. Mae manylion ynglŷn â sut mae ymateb ar gael ar dudalen 31. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 3 Ionawr 2020. Bydd y llywodraeth yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ac mae'n bwriadu cyhoeddi ymateb yn y man.

Cefndir

19. Wrth ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, fe wnaethom gynnal arolwg er mwyn cael gwell dealltwriaeth o safbwyntiau cyrff cynrychioliadol a'r farchnad ehangach ynghylch datblygu contractau yn y dyfodol. Yn ogystal â'r arolwg hwn, fe wnaethom gynnal cyfarfod o amgylch y bwrdd â rhanddeiliaid er mwyn ein helpu ni i ddeall y materion.
20. Rydym wedi derbyn 128 o ymatebion i'r arolwg. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r arolwg hwn gan ddarparwyr a oedd â contract Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai ar hyn o bryd. Ond, cawsom ymatebion gan ddarparwyr a oedd newydd dynnu allan o'r Cynllun, sefydliadau a oedd â diddordeb mewn gwneud cais am ymuno â'r Cynllun yn y dyfodol, cynghorwyr unigol a oedd ynghlwm â chyflawni'r gwasanaeth, ac aelodau o'r farnwriaeth hefyd.
21. Rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr adborth a gafwyd yn yr arolwg ac yn y cyfarfod â'r rhanddeiliaid, wrth ddatblygu'r cynigion a amlinellir yn y papur ymgynghori hwn.

Crynodeb o'r adborth

22. Roedd yr adborth o'r arolwg yn cynnwys ystod eang o bynciau. Roedd rhai'n ymwneud â pholisi cymorth cyfreithiol a gweithredu'r Cynllun yn uniongyrchol, yn ogystal â newidiadau ehangach yn y system gyfiawnder, fel GLITEM yn diwygio ystad y llys ac effaith newidiadau i bolisiau eraill adrannau'r llywodraeth, fel newidiadau i'r system budd-daliadau lles.
23. Isod, amlinellir y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr arolwg.

Nifer y llysoedd o fewn Cynllun

24. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi dweud bod y gofyn i ddarparwr gyflawni'r gwasanaeth mewn sawl llys o fewn un Cynllun ambell waith yn golygu nad oedd ymgymryd â'r gwasanaeth yn apelgar iawn.
25. Y rhesymau a roddwyd am hyn oedd oherwydd bod y pellter teithio hir yn gwneud cyflawni'r gwasanaeth yn anodd o ran logisteg, ac yn llai hyfyw yn ariannol oherwydd y costau teithio. Yn aml roedd hyn yn golygu nad oedd cleientiaid yn gallu dod i gyfarfodydd dilynol, a oedd yn arwain at wasanaeth llai effeithiol. Nodwyd hefyd y gallai fod yn anodd i rai sefydliadau, yn arbennig sefydliadau llai, i reoli Cynlluniau mwy.

Nodweddion daearyddol

26. Hefyd, yn gysylltiedig â'r uchod, mynegodd ymatebwyr bryderon am Gynlluniau mewn ardaloedd daearyddol mawr a'r anhawster o gyflawni gwasanaeth yn yr ardaloedd hynny, yn arbennig gan fod rhaid teithio ymhellach ac oherwydd effeithiau hyn, fel yr amlinellir uchod. Teimlwyd bod y broblem hon yn arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd gwledig, lle nad oes yr un math o seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus ag mewn ardaloedd mwy trefol, ac mewn ardaloedd y mae penderfyniad GLITEM i ddiwygio ystad y llys wedi effeithio arnynt.
27. Cyfeiriodd ymatebwyr at y broblem o lai o achosion mewn ardaloedd gwledig a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar hyfywedd ariannol cyflawni gwasanaeth yn yr ardaloedd hyn. Awgrymwyd y gallai cynyddu taliadau cydnabyddiaeth helpu i oresgyn yr anawsterau hyn.

Taliadau cydnabyddiaeth

28. Mynegodd ymatebwyr fod lefel y taliadau cydnabyddiaeth a oedd yn cael ei chynnig am gyflawni'r Cynllun yn ffactor bwysig o ran apêl darparu'r Cynllun. Dywedodd cyfran uchel fod taliadau cydnabyddiaeth yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu a fyddent yn cyflwyno cynnig i gyflawni'r Cynllun yn y dyfodol, ac y byddai gwell taliadau cydnabyddiaeth yn golygu y byddent yn fwy tebygol o wneud cynnig.

Cwmpas cymorth cyfreithiol

29. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr fod cwmpas y Cynllun cymorth cyfreithiol ehangach wedi cael effaith ar natur y cyngor dilynol yr oeddent yn gallu ei ddarparu. Er enghraifft, materion budd-daliadau lles ddim yn dod o fewn y cwmpas a'r materion hyn yn aml yn gysylltiedig â materion meddiannu tai.
30. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn galw am ailgyflwyno cyngor cyfreithiol cynnar, er mwyn datrys y materion hyn cyn cyrraedd achosion cymryd meddiant. Yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymorth Cyfreithiol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019, roedd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwmo i dreialu cyngor cyfreithiol cynnar, wyneb yn wyneb, mewn maes penodol o gyfraith lles cymdeithasol, er mwyn profi effaith cyngor cyfreithiol cynnar o ran cael datrysiad cynnar.

Rhestru'r Llys

31. Roedd rhestru'r llys yn thema gyffredin arall a nodwyd o'r arolwg, a'r canfyddiad fod rhestri hir yn arwain at ddriswch a dulliau rheoli gwael ar gyfer y system. Mae rhestru yn swyddogaeth farnwrol felly mae y tu allan i gwmpas datblygu polisi'r Cynllun. Ond, rydym yn gweithio gyda GLITEM er mwyn deall y mater hwn yn well.

Newidiadau i'r system budd-daliadau lles

32. Roedd nifer o ymatebwyr yn cyfeirio at y newidiadau i'r system budd-daliadau lles sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd. Roeddent yn dweud bod hyn wedi effeithio ar y Cynllun.

Y cynigion

33. Gan ystyried yr adborth a amlinellir uchod, rydym wedi datblygu cyfres o gynigion i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y Cynllun presennol. Mae modd gosod cynigion y Llywodraeth o dan ddwy brif thema – y dull gweithredu ar gyfer contractau'r Cynllun a thaliadau cydnabyddiaeth. Rydym yn credu y bydd y cynigion hyn, gyda'i gilydd, yn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth hanfodol hwn i gleientiaid sy'n dibynnu arno.

Y dull gweithredu ar gyfer contractau

34. Canfu ein harolwg bryderon ynghylch ardaloedd daearyddol mwy a'r awydd mawr i gael contractau llai gyda threfniadau lleol. Awgrymwyd y byddai contractau llai yn galluogi, pan fyddai angen, dull gweithredu mwy ymarferol o roi cyngor dilynol, ac y byddai'n gwneud Cynlluniau'n haws i'w rheoli i sefydliadau llai.

35. Byddai gosod contractau ar gyfer llysoedd unigol, gydag un darparwr ar gyfer y llysoedd hyn, yn caniatáu i ddarparwyr sy'n nes at y llys i deithio'n fwy rhwydd ac yn rhatach, a byddai'n fwy tebygol y byddai Cynlluniau llai yn haws i ddarparwyr eu rheoli. Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'n harolwg, rydym yn disgwyl y bydd llai o deithio o ganlyniad i osod contractau ar gyfer llysoedd unigol yn golygu bod cyflawni'r Cynllun yn fwy apelgar i ddarparwyr, ac y bydd hynny'n arwain at fwy o ddarparwyr yn cynnig am gyflawni'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

36. Hefyd, gallai ddefnyddio gwybodaeth leol a chaniatáu i ddarparwyr ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun mewn llysoedd lle maent wedi arfer â threfniadau, arferion a gweithdrefnau o ddydd i ddydd y llys. Gallai hyn arwain at well gwasanaeth i gleientiaid oherwydd gallent elwa o'r arbenigedd hwn. Gallent hefyd elwa o gael parhad gwasanaeth o ran cyngor dilynol – er enghraifft, cyfarfodydd dilynol i ddatrys y problemau a arweiniodd at yr achos o gymryd meddiant i ddechrau. Gallai hyn gyfrannu at redeg gwrandawiadau cymryd meddiant yn y llysoedd yn fwy rhwydd.

37. Er ein bod ni'n credu bod darparu contractau ar gyfer llysoedd unigol yn ddull gweithredu ymarferol a phragmataidd o sicrhau cynaliadwyedd y Cynllun, rydym yn gwerthfawrogi y bydd gan rai darparwyr ddiddordeb mewn cyflawni'r Cynllun mewn sawl llys o hyd. Ein bwriad yw y bydd y Cynllun yn cael ei roi ar dendr mewn modd sy'n golygu y gall darpar ddarparwyr gynnig cyflawni'r gwasanaeth mewn sawl llys os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

38. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai'r dull gweithredu hwn arwain at risgiau penodol, oherwydd gallai natur nodweddion penodol rhai llysoedd - y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig efallai - fod yn llai apelgar i ddarparwyr o hyd. Hefyd, rydym yn ymwybodol y

gallai fod pryderon penodol mewn llysoedd lle mae nifer y cleientiaid ym mhob sesiwn ar gyfartaledd yn arbennig o isel. Dyna pam rydym wedi ceisio rhoi sylw i'r materion hyn drwy wneud newidiadau i'r dull taliad cydnabyddiaeth. Amlinellir y cynigion yn nes ymlaen yn y papur hwn.

Cwestiwn un. Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig i gyflwyno tendrau ar gyfer llysoedd unigol? Os nad ydych chi, a fydddech cystal ag awgrymu dewis arall a chyflwyno tystiolaeth i ategu hynny.

Asiantwyr sy'n cyflawni'r Cynllun

39. Fel rheol mae'r LAA yn ymrwmo i gontract ag un endid cyfreithiol fesul Cynllun, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol. Ond, mae'r LAA yn caniatáu i ddarparwyr gyflawni rhai o'r gwasanaethau drwy asiantwyr ar hyn o bryd.
40. Pan ddefnyddir asiantwyr, rhaid i'r holl staff sy'n cyflawni gwasanaethau fodloni gofyniad penodol o ran profiad a bod yn gynghorwyr priodol sy'n cynnal o leiaf ddeuddeg awr o waith achos bob wythnos yn eu gwaith. Rydym yn bwriadu parhau ar y sail hon, a byddai'r un egwyddorion polisi o ran taliadau cydnabyddiaeth yn berthnasol i asiantwyr ag y byddent i ddarparwyr a fyddai'n gwneud yr atgyfeiriad. Os bydd y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei ddirprwyo i asiant, bydd darparwyr yn dal i fod yn gyfrifol am yr holl wasanaethau y bydd yr asiant yn eu cyflawni, a bydd y ddau yn cytuno ar unrhyw daliad atgyfeirio.

Cwestiwn dau. Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i ganiatáu i asiantwyr gyflawni'r Cynllun fel rydym yn ei wneud ar hyn o bryd? Os nad ydych chi, a fydddech cystal ag awgrymu dewis arall a chyflwyno tystiolaeth i ategu hynny.

Taliadau cydnabyddiaeth

41. Dywedodd cyfran uchel o ymatebwyr i'r arolwg fod taliadau cydnabyddiaeth yn ystyriaeth allweddol o ran a fyddent yn gwneud cynnig i gyflawni'r Cynllun yn y dyfodol, ac y byddai gwell taliadau cydnabyddiaeth yn golygu y byddent yn fwy tebygol o wneud cynnig. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd nifer o ymatebwyr fod materion ehangach fel cost teithio i'r llys i gyflawni'r Cynllun a'r nifer bychan o waith mewn rhai llysoedd yn effeithio ar hyfywedd ariannol cyflwyno'r Cynllun.
42. Rydym wedi ystyried y pryderon hyn ac wedi datblygu nifer o gynigion rydym ni'n credu fydd yn mynd i'r afael â hwy ac a fydd yn gwneud y Cynllun yn fwy cynaliadwy, gan sicrhau mynediad at gyfiawnder i'r rhai sy'n dibynnu arno.

Cyflwyno ffi fynychu

43. O dan y Cynllun presennol, pan na fydd cleientiaid yn cael eu gweld yn ystod sesiwn Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai, mae'r darparwr yn derbyn ffi dim sesiwn. Mae hyn yn cyfateb i'r hyn y byddai'r darparwr wedi cael ei dalu petai wedi gweld dim ond un cleient yn ystod y sesiwn – mae'r ffi yn £75.60 yn Llundain ac yn £71.55 y tu allan i Lundain ar hyn o bryd. Caiff ei dalu ar y sail bod y darparwr wedi bod yn bresennol yn y llys ac wedi bod ar gael, er nad oeddent wedi gweld unrhyw gleientiaid, felly dylent gael rhyw fath o daliad cydnabyddiaeth am eu hamser.
44. Dywedodd ymatebwyr i'n harolwg ei bod yn anodd cyflwyno'r Cynllun yn llwyddiannus mewn llysoedd lle'r oedd nifer yr achosion yn isel, oherwydd nad oedd y taliad am lwyth gwaith isel bob amser yn ddigon i dalu am gostau cyflawni'r gwasanaeth. Oherwydd bod y llysoedd hyn yn dueddol o fod mewn ardaloedd gwledig, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, mae costau cyflawni'r gwasanaeth hefyd yn debygol o fod yn uwch yn yr ardaloedd hyn oherwydd costau teithio. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at fylchau yn y ddarpariaeth, gan arwain at wasanaeth gwaeth i gleientiaid.
45. Rydym wedi ystyried y ffordd orau i ymateb i'r broblem hon, ac rydym yn cynnig cyflwyno ffi fynychu yn lle'r ffi dim sesiwn sy'n bodoli eisoes. Rydym yn cynnig y byddai'r ffi yn o leiaf £151.20 yn Llundain ac yn £143.10 y tu allan i Lundain. Mae hyn yn cyfateb i'r hyn y byddai darparwr yn ei gael am weld dau gleient o dan y Cynllun presennol. O dan ein dull gweithredu newydd arfaethedig ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth y Cynllun, byddai darparwr yn derbyn y ffi hon petaent yn gweld un

neu ddau o gleientiaid yn ystod un sesiwn, neu petaent wedi mynychu'r llys am ddim sesiwn o gwbl.

46. Byddai darparwyr yn cael ffi am un cleient ar ben y ffi fynychu am bob cleient ychwanegol y byddai'r darparwr wedi'i weld, ar ôl y ddau gleient sy'n dod o dan y ffi fynychu. Felly, er enghraifft, petai darparwr y tu allan i Lundain yn gweld tri chleient yn ystod sesiwn, byddai'n derbyn £214.65 a byddai darparwr yn Llundain yn derbyn £226.80. Rydym yn credu bod hwn yn ddull gweithredu teg a chyfiawn i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n hyfyw yn ariannol, ym mha bynnag lys y bydd hynny'n digwydd.

Cwestiwn tri. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno ffi fynychu yn lle'r ffi dim sesiwn sy'n bodoli ar hyn o bryd? Os nad ydych chi, a fydddech cystal ag awgrymu dewis arall a chyflwyno tystiolaeth i ategu hynny.

Cwestiwn pedwar. Ydych chi'n cytuno y dylai'r ffi fynychu fod gyfwerth â ffi y byddai darparwr yn ei chael am weld dau gleient yn ystod y sesiwn? Os nad ydych chi, a fydddech cystal ag awgrymu dewis arall a chyflwyno tystiolaeth i ategu hynny.

Ffioedd am waith dilynol

47. O dan y Cynllun presennol, os bydd darparwr yn gweld cleient o dan y Cynllun ac yn agor mater Help Cyfreithiol wedi hynny, dim ond y ffi Cymorth Cyfreithiol y mae ganddo ganiatâd i'w hawlio, er ei fod wedi gwneud rhywfaint o waith o dan y Cynllun.
48. Dywedodd ymatebwyr i'n harolwg bod angen cryn dipyn o waith dilynol ar ôl gwrandawriad llys yn aml iawn, ond o dan drefniadau'r contract presennol, rhaid penderfynu a ydynt am hawlio ffi'r Cynllun neu ffi am gychwyn mater Help Cyfreithiol.
49. Ar y cyfan, mae nifer yr achosion sy'n symud ymlaen i'r cam Help Cyfreithiol yn isel iawn ar draws pob Cynllun. Nid yw'n glir, o'r data sydd ar gael, beth yw'r rhesymau dros hyn. Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg y byddai'r gallu i hawlio ffi'r Cynllun yn ogystal â chychwyn mater Help Cyfreithiol, yn gwneud cyflawni'r Cynllun yn fwy apelgar ac yn golygu y byddent yn fwy tebygol o wneud cynnig. Byddai hefyd yn arwain at well gwasanaeth i gleientiaid drwy gynyddu'r dewis o gyngor dilynol sydd ar gael. Felly, rydym yn cynnig newid y contract presennol er mwyn i ddarparwyr allu hawlio ffi'r Cynllun yn ogystal ag unrhyw ffi Help Cyfreithiol dilynol. Rydym yn credu y bydd hyn yn gwneud cyflawni'r gwasanaeth yn fwy apelgar, gan wneud y Cynllun yn fwy cynaliadwy, a byddai'n sicrhau parhad gwasanaeth i gleientiaid.

Cwestiwn pump. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i ganiatáu i ddarparwyr hawlio ffi'r Cynllun yn ogystal â'r ffi am unrhyw fater Help Cyfreithiol dilynol? Os nad ydych chi, a fydddech cystal ag awgrymu dewis arall a chyflwyno tystiolaeth i ategu hynny.

Teithio

50. O dan y model presennol, ni chaiff darparwyr eu digolledu gan yr LAA am yr amser teithio i wneud y gwaith hwn. Ond, roedd yr amser teithio i gyflawni'r gwaith hwn, a chost y teithio, yn thema a oedd yn codi'n aml yn ein harolwg. Roedd ymatebwyr yn bryderus fod rhai ardaloedd yn y wlad yn fwy o her o ran amser, cost a phellter yng nghyswllt teithio. Roedd hefyd yn arwain at wastraffu amser gwerthfawr y gallai gael ei ddefnyddio'n well yn rhoi cyngor i gleientiaid.
51. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o categorïau eraill y gyfraith, rydym yn cydnabod, oherwydd natur y Cynllun, bod angen teithio. Nodwyd hyn yn glir iawn yn yr ymatebion i'r arolwg. Felly, rydym yn credu y gallai addasu'r Cynllun er mwyn i ddarparwyr gael tâl rhesymol am deithio helpu i greu gwasanaeth mwy cynaliadwy ac apelgar.
52. Rydym wedi ystyried pennu taliad safonol ar gyfer amser teithio. Ond, rydym yn credu y byddai hyn yn anodd am na fyddai'n adlewyrchu gwir gostau cyflawni'r gwasanaeth, na'r costau teithio gwahanol yng ngwahanol rannau o'r wlad.
53. Felly, rydym yn cynnig tendro ar gyfer amser teithio er mwyn cyflawni'r Cynllun ar sail pris cystadleuol drwy ofyn i ddarparwyr gynnwys costau teithio disgwylidig yn eu cynigion. Byddai hyn yn caniatáu i'r farchnad bennu'r taliadau teithio. Mater i'r darparwyr fyddai penderfynu a fyddai'n briodol cynnwys amser teithio yn ei gynnig ai peidio, am gost sy'n rhesymol yn eu barn nhw wrth ystyried agweddau ehangach y cynigion.
54. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn cael ei ddyfarnu drwy broses gaffael gystadleuol yn draddodiadol, ac er ein bod ni'n cydnabod bod nad oedd cystadleuaeth pris yn boblogaidd yn ystod y tendr, dim ond ar gyfer yr elfen costau teithio rydym yn bwriadu i'r math yma o gystadleuaeth fod yn berthnasol. Rydym yn rhagweld y byddai asesu'r meini prawf ansawdd yn parhau i ffurfio'r gyfran fwyaf sylweddol o'r sgôr gyffredinol y bydd cynigwyr yn ei chael. Ond, yn ein barn ni, bydd gallu cynnwys costau teithio rhesymol mewn cynigion yn gynnig newydd a fydd yn caniatáu i ddarparwyr adlewyrchu cost cyflawni'r Cynllun yn fwy cywir a bydd hefyd o fudd i gynaliadwyedd y gwasanaeth yn gyffredinol. Hefyd, rydym yn credu mai cystadleuaeth o ran pris yw'r ffordd symlaf yn weinyddol a'r ffordd decaf o wneud hyn.

Cwestiwn chwech. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno costau teithio rhesymol fel rhan o'r cynnig yn y gystadleuaeth? Os nad ydych chi, a fydddech cystal ag awgrymu dewis arall a chyflwyno tystiolaeth i ategu hynny.

Cwestiwn saith. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i dendro am gontractau ar sail gystadleuol o ran safon, gyda chostau teithio wedi'u cynnwys ar sail gystadleuol o ran pris? Os nad ydych chi, a fydddech cystal ag awgrymu dewis arall a chyflwyno tystiolaeth i ategu hynny.

Asesiad o'r Effaith

55. Mae'r Asesiad o'r Effaith sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon yn darparu manylion effeithiau disgwylidig rhoi'r cynigion hyn ar waith ar ffurf ariannol. Byddem yn croesawu gwybodaeth a safbwyntiau ynghylch hyn i'n helpu ni i wella safon ein hasesiad.
56. Byddwn yn cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn yn y man, a fydd yn nodi'r diwygiadau hynny rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith. Yn ystod y cam hwnnw, byddwn hefyd yn cyhoeddi Asesiad diwygiedig o'r Effaith a fydd yn nodi amcangyfrifon diwygiedig yn sgil unrhyw newidiadau i'r polisi ar ôl yr ymgynghoriad.

Cwestiwn wyth. Ydych chi'n cytuno â'r tybiaethau a'r casgliadau a amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith? A fydddech cystal â darparu unrhyw dystiolaeth empirig sy'n ymwneud â'r cynigion yn y papur hwn.

Effaith ar Gydraddoldeb

57. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb yn ystyried effeithiau tebygol y cynigion sy'n cael eu cyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn ar gydraddoldeb i ddarparwyr a chleientiaid. Mae'r cynigion yn ceisio gwneud y Cynllun yn fwy apelgar a chynaliadwy yn ariannol i'r darparwyr hynny sy'n dymuno ymgymryd â'r gwaith, gan sicrhau mynediad at gyfiawnder i gleientiaid sy'n dibynnu ar hynny.

58. Ar gyfer pob cynnig, hyd ag y mae modd, rydym wedi nodi beth yw'r effeithiau tebygol ar gydraddoldeb yn y Datganiad Cydraddoldeb hwn, ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf a oedd ar gael. Rydym wedi gofyn am adborth gan randdeiliaid ar gyfer pob un o'r cynigion hyn a'u heffaith yn yr ymgynghoriad. Rydym hefyd wedi gofyn dau gwestiwn penodol am gydraddoldeb.

Dyletswyddau cydraddoldeb

59. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod Gweinidogion a'r Adran yn rhoi sylw dyladwy, wrth arfer eu swyddogaethau, i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu; a
- hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

60. Rhaid ystyried rhoi 'sylw dyladwy' yn ôl y naw 'nodwedd warchoddedig' o dan Ddeddf 2010. Dyma'r naw nodwedd warchoddedig: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

61. Mae hon yn ddyletswydd barhaus, ac fel rhan o'r rhwymedigaeth hon, rydym wedi cynnal asesiad cychwynnol o effaith ein cynigion ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu'r posibilrwydd o wahaniaethu

62. Mae ein dull gweithredu ar gyfer asesu'r posibilrwydd o anfantais penodol o ganlyniad i'r cynigion wedi cydymffurfio â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Y dull hwnnw oedd adnabod yr unigolion hynny y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt (y 'gronfa'), a chymharu effeithiau posibl y cynigion

ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

63. Mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn datgan y dylid diffinio'r gronfa yr ystyrir sydd mewn perygl o wahaniaethu anuniongyrchol posibl, fel y bobl hynny y gallai'r polisi effeithio arnynt (yn niweidiol neu fel arall) ac na ddylid diffinio'r gronfa hon yn rhy eang.

Y gronfa o unigolion yr effeithir arnynt

64. Y brif gronfa o unigolion y bydd y cynigion yn effeithio arni fydd darparwyr sy'n ymgymryd â gwaith Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai a'u hasiantwyr, gan gynnwys darparwyr Dielw'r Cynllun. Ond, bydd y cynigion hefyd yn effeithio ar unigolion sy'n chwilio am gyngor a chynrychiolaeth o dan y Cynllun.

Y data sydd ar gael

65. Caiff gwasanaethau Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai yng Nghymru a Lloegr eu cyflawni gan wahanol ddarparwyr. Ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym am y darparwyr cymorth cyfreithiol hyn. Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2015, cynhaliodd yr LAA arolwg ar-lein i ddysgu mwy am y darparwyr sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol¹. Anfonwyd yr arolwg at bob un o'r 2,262 o ddarparwyr cymorth cyfreithiol (ar draws y farchnad cymorth cyfreithiol gyfan) i'w gwblhau rhwng 19 Ionawr a 27 Chwefror 2015. Cwblhaodd 644 o ddarparwyr yr arolwg - cyfradd ymateb o 28%. Mae'r arolwg yn gofyn am nodweddion gwarchoddedig y rhai sy'n berchen neu sy'n rheoli'r cwmni (2,057 o bobl), yn hytrach na chyfanswm nifer y cwmnïau a ymatebodd (13,578).

66. Mae'r gyfradd ymateb gyfyngedig, oedran y data a'r ffaith bod y data yn cwmpasu'r farchnad cymorth cyfreithiol gyfan, yn hytrach na dim ond y rhai sy'n cyflawni'r Cynllun, yn cyfyngu'n sylweddol ar ein gallu i ddod i gasgliadau ystyrllon. Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn yr arolwg hwn yn nodi bod dynion yn cael eu cynrychioli'n ormodol mewn swyddi rheoli, o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, ac roedd gormod o gynrychiolaeth yn y grŵp oedran 40-59 hefyd.

67. Prin yw'r data am achosion o broblemau cyfreithiol ymhlith pobl â nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, mae gan y llywodraeth rywfaint o ddata am ddemograffeg pobl sy'n cael cymorth cyfreithiol.

68. Cleientiaid Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai yn 2018-19²:

¹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ystadegau Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr: Ionawr - Mawrth 2015, ar gael yn: www.gov.uk/government/statistics/legal-aid-statistics-january-to-march-2015

² Data am gleientiaid Cymorth Cyfreithiol HPCDS 2018-19

- 61% yn fenywod – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (51%³);
- 23% o gefndir pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (14%⁴);
- 27% yn bobl ag anabledd – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (21%⁵);

69. Dyma'r cleientiaid a gafodd Help Cyfreithiol yn 2018-19 yn y categori tai⁶:

- 61% yn fenywod – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (51%⁷);
- 24% o gefndir BAME – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (14%⁸);
- 45% ag anabledd – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (21%⁹);
- 26% rhwng 25 a 34 oed – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (14%¹⁰).

70. Dyma'r cleientiaid a gafodd gynrychiolaeth sifil yn 2018-19 yn y categori tai¹¹:

- 58% yn fenywod – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (51%¹²);
- 35% o gefndir BAME – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (14%¹³);

³ <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/demographics/male-and-female-populations/latest>

⁴ <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/national-and-regional-populations/population-of-england-and-wales/latest>

⁵ Arolwg Adnoddau'r Teulu, Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2017-18

⁶ Bwletin Chwarterol Ystadegau Cymorth Cyfreithiol (Ionawr - Mawrth 2019), tablau 11.1-11.5

⁷ <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/demographics/male-and-female-populations/latest>

⁸ <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/national-and-regional-populations/population-of-england-and-wales/latest>

⁹ Arolwg Adnoddau'r Teulu, Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2017-18

¹⁰ Cyfrifwyd â data cyfrifiad ONS 2011 o'r boblogaeth ar gyfer pob oedran i gael ffigurau ar gyfer yr ystod oedran 25-34 er mwyn gallu cymharu.

¹¹ Bwletin Chwarterol Ystadegau Cymorth Cyfreithiol (Ionawr - Mawrth 2019), tablau 11.1-11.5

¹² <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/demographics/male-and-female-populations/latest>

¹³ <https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/uk-population-by-ethnicity/national-and-regional-populations/population-of-england-and-wales/latest>

- 45% ag anabledd – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (21%¹⁴);
- 24% rhwng 25 a 34 oed – yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth yn gyffredinol (14%¹⁵).

71. Isod, rydym wedi tynnu sylw at ystyriaethau cydraddoldeb, effeithiau a mesurau lliniaru'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Yn unol â'n dyletswyddau cyfreithiol, byddwn yn parhau i ystyried yr effaith ar gydraddoldeb wrth i ni barhau i ddatblygu'r cynigion hyn. Byddwn yn cyhoeddi asesiad o gydraddoldeb wedi'i ddiweddarau ochr yn ochr â'n hymateb i'r ymgynghoriad.

72. Rydym hefyd yn croesawu barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch effeithiau tebygol y cynigion hyn ar gydraddoldeb. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod bylchau yn y data sydd wedi'u casglu am nodweddion gwarchoddedig y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus a'r rhai sy'n cael cymorth cyfreithiol. Byddem yn croesawu unrhyw ddata empirig y gall ymatebwyr eu darparu ynghylch hyn.

Contractau ar gyfer llysoedd unigol yn hytrach nag ardaloedd daearyddol mwy

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon

Gwahaniaethu uniongyrchol

73. Yn ôl ein hasesiad ni, ni fydd y cynnig hwn yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010. Bwriedir caniatáu i ddarparwyr deithio i lysoedd yn haws ac am gost is ac i'r Cynlluniau fod yn haws i ddarparwyr eu rheoli. Ni fydd y cynnig yn trin unrhyw un yn wahanol oherwydd nodwedd warchoddedig. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o ddarpariaeth gwaith Cynllun Dyletswydd y Llysoedd yng nghyswllt Meddiannu Tai ar gael ledled y wlad, gan sicrhau bod unigolion yn gallu cael mynediad at gyfiawnder.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

74. Ein hasesiad cychwynnol yw na fydd y cynnig hwn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010.

75. Mae'r data a amlinellir uchod yn dangos y gall dynion gael eu gorgynrychioli o fewn grŵp darparwyr cymorth cyfreithiol, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, sy'n golygu y gallai dynion elwa mwy o'r cynnig hwn na menywod.

76. Mae'r data sydd ar gael hefyd yn dangos bod menywod, unigolion o gefndir BAME ac unigolion ag anableddau yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n cael cymorth

¹⁴ Arolwg Adnoddau'r Teulu, Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2017-18

¹⁵ Cyfrifwyd â data cyfrifiad ONS 2011 o'r boblogaeth ar gyfer pob oedran i gael ffigurau ar gyfer yr ystod oedran 25-34 er mwyn gallu cymharu.

cyfreithiol ar gyfer materion tai, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw fanteision i gleientiaid sy'n deillio o'r cynnig hwn – er enghraifft, elwa o wybodaeth leol darparwyr fel yr amlinellir yn y papur ymgynghori – gael eu tystio'n anghymesur gan unigolion yn y grwpiau hyn.

77. Os bydd y cynnig yn cyrraedd y nod polisi o sicrhau bod y Cynllun yn fwy hyfyw yn ariannol i'w gyflawni, yna efallai y bydd nifer o gleientiaid darparwyr Dielw'r Cynllun yn elwa o'r ffaith bod cyngor amlap a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y darparwyr hyn ar gael yn fwy helaeth. Fel uchod, mae unigolion â nodweddion gwarchodedig yn debygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith y cleientiaid hyn.

78. Er bod rhai grwpiau gwarchodedig yn cael eu gorgynrychioli yn y grwpiau y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt, ni fyddai ein cynigion polisi'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol oherwydd nad ydynt yn debygol o arwain at unrhyw anfantais i gleientiaid â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau unrhyw fanteision y bydd grŵp penodol yn eu tystio'n anghymesur, o ganlyniad i'r cynnig hwn, fel modd cymesur o gyrraedd y nod polisi o gael gwasanaeth mwy cynaliadwy.

Hybu Cyfle Cyfartal

79. Rydym wedi ystyried sut mae'r cynnig hwn yn cael effaith ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal.

80. Fel y nodir uchod, nod y cynigion yw gwella cynaliadwyedd y Cynllun. Felly, mae'n debygol y bydd darparwyr a chleientiaid yn elwa o lefel barhaus o wasanaeth. Fel yr amlinellir uchod, mae'r data yn dangos bod dynion yn fwy tebygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith darparwyr cymorth cyfreithiol sy'n cyflawni'r Cynllun, a bod menywod, unigolion o gefndir BAME ac unigolion ag anableddau yn fwy tebygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith cleientiaid y Cynllun, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym yn credu bod y cynigion yn gyffredinol yn debygol o barhau i fodloni anghenion cleientiaid â nodweddion gwarchodedig.

81. Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau unrhyw fanteision y mae grŵp penodol yn eu tystio'n anghymesur, o ganlyniad i'r cynigion hyn, fel modd o gyrraedd y nod polisi o sicrhau gwasanaeth mwy cynaliadwy.

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon o ran anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

82. Rydym yn cydnabod bod cleientiaid ag anableddau yn debygol o ddefnyddio'r Cynllun a byddwn yn parhau i sicrhau bod darparwyr a GLITEM yn gwneud addasiadau rhesymol.

Hybu Perthynas Dda

83. Rydym wedi ystyried yr amcan hwn sy'n nodi ei fod yn annhebygol o fod yn arbennig o berthnasol i'r cynnig.

Aflonyddu a Fictimeiddio

84. Nid ydym yn credu bod risg o aflonyddu na fictimeiddio o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Caniatáu i ddarparwyr hawlio ffi'r Cynllun yn ogystal â'r ffi Help Cyfreithiol dilynol

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon

Gwahaniaethu uniongyrchol

85. Yn ôl ein hasesiad ni, ni fydd y cynnig hwn yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010. Y bwriad yw gwneud cyflawni'r Cynllun yn fwy apelgar, gan felly wneud y Cynllun yn fwy cynaliadwy a sicrhau parhad gwasanaeth i gleientiaid. Ni fydd y cynnig yn trin unrhyw un yn wahanol ar sail nodwedd warchoddedig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

86. Ein hasesiad cychwynnol yw na fydd y cynnig hwn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010.

87. Mae'r data a amlinellir uchod yn dangos y gall dynion gael eu gorgynrychioli o fewn grŵp darparwyr cymorth cyfreithiol, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, sy'n golygu y gallai dynion elwa mwy o'r cynnig hwn na menywod.

88. Mae'r data sydd ar gael hefyd yn dangos bod menywod, unigolion o gefndir BAME ac unigolion ag anableddau yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n cael cymorth cyfreithiol ar gyfer materion tai, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Felly, os bydd y cynnig hwn yn arwain at well gwasanaeth i gleientiaid drwy sicrhau bod mwy o wasanaethau dilynol ar gael, a sicrhau parhad cyngor a chynrychiolaeth i unigolion sydd ynghlwm ag achosion o gymryd meddiant, bydd unigolion yn y grwpiau hyn yn elwa mwy na'r boblogaeth yn gyffredinol.

89. Os bydd y cynnig yn cyrraedd y nod polisi o sicrhau bod y Cynllun yn fwy hyfyw yn ariannol i'w gyflawni, yna efallai y bydd nifer o gleientiaid darparwyr Dielw'r Cynllun yn elwa o'r ffaith bod cyngor amlap a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y darparwyr

hyn ar gael yn fwy helaeth. Fel uchod, mae unigolion â nodweddion gwarchoddedig yn debygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith y cleientiaid hyn.

90. Er bod rhai grwpiau gwarchoddedig yn cael eu gorgynrychioli yn y grwpiau y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt, ni fyddai ein cynigion polisi'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol oherwydd nad ydynt yn debygol o arwain at unrhyw anfantais i gleientiaid â nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau unrhyw fanteision y mae grŵp penodol yn eu tystio'n anghymesur, o ganlyniad i'r cynnig hwn, fel rhan o ddull cymesur o gyrraedd y nod polisi o sicrhau gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy.

Hybu Cyfle Cyfartal

91. Rydym wedi ystyried sut mae'r cynnig hwn yn cael effaith ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal.
92. Fel y nodir uchod, nod y cynigion yw gwella cynaliadwyedd y Cynllun. Felly, mae'n debygol y bydd darparwyr a chleientiaid yn elwa o lefel gyson o ran cyflawni'r Cynllun. Fel yr amlinellir uchod, mae'r data yn dangos bod dynion yn fwy tebygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith darparwyr cymorth cyfreithiol sy'n cyflawni'r Cynllun, a bod menywod, unigolion o gefndir BAME ac unigolion ag anableddau yn fwy tebygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith cleientiaid y Cynllun, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym yn credu bod y cynigion yn gyffredinol yn debygol o barhau i fodloni anghenion cleientiaid â nodweddion gwarchoddedig.
93. Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau unrhyw fanteision y mae grŵp penodol yn eu tystio'n anghymesur, o ganlyniad i'r cynigion hyn, fel rhan o ddull cymesur o gyrraedd y nod polisi o sicrhau gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy.

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon o ran anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

94. Rydym yn cydnabod bod cleientiaid ag anableddau yn debygol o ddefnyddio'r Gwasanaeth a byddwn yn parhau i sicrhau bod darparwyr yn gwneud addasiadau rhesymol.

Hybu Perthynas Dda

95. Rydym wedi ystyried yr amcan hwn sy'n nodi ei fod yn annhebygol o fod yn arbennig o berthnasol i'r cynnig.

96.

Aflonyddu a Fictimeiddio

97. Nid ydym yn credu bod risg o aflonyddu na fictimeiddio o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Cyflwyno ffi benodol am fynychu ar gyfer pob Cynllun yn lle'r taliad dim sesiwn sydd ar gael ar hyn o bryd

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon

Gwahaniaethu uniongyrchol

98. Yn ôl ein hasesiad ni, ni fydd y cynnig hwn yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010. Y bwriad yw gwneud cyflawni'r Cynllun yn fwy hyfyw yn ariannol i ddarparwyr, gan wneud y gwasanaeth cyfan yn fwy cynaliadwy i gleientiaid. Ni fydd y cynnig yn trin unrhyw un yn wahanol ar sail nodwedd warchoddedig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

99. Ein hasesiad cychwynnol yw na fydd y cynnig hwn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010.

100. Mae'r data a amlinellir uchod yn awgrymu y gall dynion fod yn cael eu gorgynrychioli ymhlith darparwyr cymorth cyfreithiol, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae hynny'n golygu y gall dynion sy'n gweithio i ddarparwyr cymorth cyfreithiol elwa mwy na menywod o'r ffi uwch hon.

101. Mae'r data sydd ar gael hefyd yn dangos bod menywod, unigolion o gefndir BAME ac unigolion ag anabledau yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n cael cymorth cyfreithiol ar gyfer materion tai, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Felly, os bydd y cynnig hwn yn arwain at well gwasanaeth i gleientiaid ac yn osgoi bylchau posibl yn y ddarpariaeth, yna gallai unigolion yn y grwpiau hyn - yn arbennig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig - elwa mwy na'r boblogaeth yn gyffredinol.

102. Os bydd y cynnig yn cyrraedd y nod polisi o sicrhau bod y Cynllun yn fwy hyfyw yn ariannol i'w gyflawni, yna efallai y bydd nifer o gleientiaid darparwyr Dielw'r Cynllun yn elwa o'r ffaith bod cyngor amlap a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y darparwyr hyn ar gael yn fwy helaeth. Fel uchod, mae unigolion â nodweddion gwarchoddedig yn debygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith y cleientiaid hyn.

103. Er bod rhai grwpiau gwarchoddedig yn cael eu gorgynrychioli yn y grwpiau y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt, ni fyddai ein cynigion polisi'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol oherwydd nad ydynt yn debygol o arwain at unrhyw anfantais i gleientiaid â nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau unrhyw fanteision y mae grŵp penodol yn eu tystio'n anghymesur, o ganlyniad i'r cynnig hwn, fel rhan o ddull cymesur o gyrraedd y nod polisi o sicrhau gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy.

Hybu Cyfle Cyfartal

104. Rydym wedi ystyried sut mae'r cynnig hwn yn cael effaith ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal.

105. Fel y nodir uchod, nod y cynigion yw gwella cynaliadwyedd y Cynllun. Felly, mae'n debygol y bydd darparwyr a chleientiaid yn elwa o lefel gyson o ran cyflawni'r Cynllun. Fel yr amlinellir uchod, mae'r data yn dangos bod dynion yn fwy tebygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith darparwyr cymorth cyfreithiol sy'n cyflawni'r Cynllun, a bod menywod, unigolion o gefndir BAME ac unigolion ag anableddau yn fwy tebygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith cleientiaid y Cynllun, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym yn credu bod y cynigion yn gyffredinol yn debygol o barhau i fodloni anghenion cleientiaid â nodweddion gwarchoddedig.

105. Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau unrhyw fanteision y mae grŵp penodol yn eu tystio'n anghymesur, o ganlyniad i'r cynigion hyn, fel rhan o ddull cymesur o gyrraedd y nod polisi o sicrhau gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy.

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon o ran anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

106. Rydym yn cydnabod bod cleientiaid ag anableddau yn debygol o ddefnyddio'r Gwasanaeth a byddwn yn parhau i sicrhau bod darparwyr yn gwneud addasiadau rhesymol.

Hybu Perthynas Dda

107. Rydym wedi ystyried yr amcan hwn sy'n nodi ei fod yn annhebygol o fod yn arbennig o berthnasol i'r cynnig.

Aflonyddu a Fictimeiddio

108. Nid ydym yn credu bod risg o aflonyddu na fictimeiddio o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Cyflwyno costau teithio rhesymol fel rhan o'r cynnig am y gystadleuaeth

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon

Gwahaniaethu uniongyrchol

109. Yn ôl ein hasesiad ni, ni fydd y cynnig hwn yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010. Bwriedir gwneud y Cynllun yn fwy hyfyw yn ariannol i ddarparwyr, gan sicrhau bod y Cynllun cyfan yn fwy cynaliadwy i gleientiaid. Ni fydd y cynnig yn trin unrhyw un yn anghyfreithlon ar sail nodwedd warchoddedig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

110. Ein hasesiad cychwynnol yw na fydd y cynnig hwn yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010.

111. Mae'r data a amlinellir uchod yn dangos y gall dynion fod yn cael eu gorgynrychioli ymhlith darparwyr cymorth cyfreithiol, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae hynny'n golygu y gall dynion elwa mwy na menywod o dderbyn tâl am deithio.

112. Mae'r data sydd ar gael hefyd yn dangos bod menywod, unigolion o gefndir BAME ac unigolion ag anabledau yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n cael cymorth cyfreithiol ar gyfer materion tai, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Felly, os bydd y cynnig hwn yn helpu i greu gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy, sy'n arwain at gyngor o well safon sydd ar gael yn fwy helaeth i gleientiaid, yna gallai unigolion yn y grwpiau hyn elwa mwy na'r boblogaeth yn gyffredinol.

113. Os bydd y cynnig yn cyrraedd y nod polisi o sicrhau bod y Cynllun yn fwy hyfyw yn ariannol i'w gyflawni, yna efallai y bydd nifer o gleientiaid darparwyr Dielw'r Cynllun yn elwa o'r ffaith bod cyngor amlap a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y darparwyr hyn ar gael yn fwy helaeth. Fel uchod, mae unigolion â nodweddion gwarchoddedig yn debygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith y cleientiaid hyn.

114. Er bod rhai grwpiau gwarchoddedig yn cael eu gorgynrychioli yn y grwpiau y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt, ni fyddai ein cynigion polisi'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol oherwydd nad ydynt yn debygol o arwain at unrhyw anfantais i gleientiaid â nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau unrhyw fanteision y mae grŵp penodol yn eu tystio'n anghymesur, o ganlyniad i'r cynnig hwn, fel rhan o ddull cymesur o gyrraedd y nod polisi o sicrhau gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy.

Hybu Cyfle Cyfartal

115. Rydym wedi ystyried sut mae'r cynnig hwn yn cael effaith ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal.
116. Fel y nodir uchod, nod y cynigion yw gwella cynaliadwyedd y Cynllun. Felly, mae'n debygol y bydd darparwyr a chleientiaid yn elwa o lefel gyson o ran cyflawni'r Cynllun. Fel yr amlinellir uchod, mae'r data yn dangos bod dynion yn fwy tebygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith darparwyr cymorth cyfreithiol sy'n cyflawni'r Cynllun, a bod menywod, unigolion o gefndir BAME ac unigolion ag anableddau yn fwy tebygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith cleientiaid y Cynllun, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym yn credu bod y cynigion yn gyffredinol yn debygol o barhau i fodloni anghenion cleientiaid â nodweddion gwarchoddedig.
117. Rydym yn credu bod modd cyfiawnhau unrhyw fanteision y mae grŵp penodol yn eu tystio'n anghymesur, o ganlyniad i'r cynigion hyn, fel rhan o ddull cymesur o gyrraedd y nod polisi o sicrhau gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy.

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon o ran anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

118. Rydym yn cydnabod bod cleientiaid ag anableddau yn debygol o ddefnyddio'r cynllun, a byddwn yn parhau i sicrhau bod darparwyr yn gwneud addasiadau rhesymol.

Hybu Perthynas Dda

119. Rydym wedi ystyried yr amcan hwn sy'n nodi ei fod yn annhebygol o fod yn arbennig o berthnasol i'r cynnig.

Aflonyddu a Fictimeiddio

120. Nid ydym yn credu bod risg o aflonyddu na fictimeiddio o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Monitro a Gwerthuso

121. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiau'r cynigion hyn ar gydraddoldeb yn y dyfodol. Byddwn yn diweddarau'r datganiad cydraddoldeb hwn yn ôl yr angen ac yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ochr yn ochr â'n hymateb i'r ymgynghoriad.
122. Bydd unrhyw benderfyniad terfynol yn cynnwys tystiolaeth o'r effaith o'r Datganiad Cydraddoldeb. Byddwn yn parhau i roi 'sylw dyladwy' i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i'r Sector Gyhoeddus wrth i'r cynigion gael eu rhoi ar waith a byddwn yn ystyried y ffordd mwyaf effeithiol o fonitro'r effaith ar gydraddoldeb.
123. Byddem yn croesawu safbwyntiau ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar effeithiau tebygol y cynigion hyn ar gydraddoldeb hefyd.

Cwestiwn naw. O'ch profiad chi, a oes unrhyw grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchoddedig y gallai'r cynigion yn y papur hwn effeithio arnynt yn benodol, naill ai mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol? Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

Cwestiwn deg. Yn eich barn chi, pa effaith gaiff pob cynnig ar gydraddoldeb unigolion â nodweddion gwarchoddedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch ddata a rhesymau.

Prawf Teulu

124. Her fewnol gan y llywodraeth yw'r Prawf Teulu sy'n cael adrannau i ystyried effaith eu polisiau ar hybu teuluoedd cadarn a sefydlog. Byddem yn croesawu gwybodaeth a safbwyntiau ymatebwyr ar yr effaith y gallai'r cynigion hyn ei chael ar deuluoedd.

Cwestiwn un ar ddeg. Yn eich barn chi, pa effaith y mae'r cynigion hyn yn ei chael ar deuluoedd? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch ddata a rhesymau.

Holiadur

Cwestiwn un. Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig i gyflwyno tendrau ar gyfer llysoedd unigol? Os nad ydych chi'n cytuno, rhowch resymau dros eich barn a nodwch unrhyw ddewisiadau eraill.

Cwestiwn dau. Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i ganiatáu defnyddio asiantwyr i gyflawni'r Cynllun yn yr un ffordd ag yr ydym yn ei wneud nawr?

Cwestiwn tri. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno ffi fynychu yn lle'r ffi dim sesiwn sy'n bodoli ar hyn o bryd?

Cwestiwn pedwar. Ydych chi'n cytuno y dylai'r ffi fynychu gyfateb i'r tâl y byddai'r darparwr yn ei gael am weld dau gleient yn ystod y sesiwn? Os nad ydych chi, a fydddech cystal ag awgrymu dewis arall a chyflwyno tystiolaeth i ategu hynny.

Cwestiwn pump. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu i ddarparwyr hawlio ffi'r Cynllun yn ogystal â'r ffi am unrhyw fater Help Cyfreithiol dilynol?

Cwestiwn chwech. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno costau teithio rhesymol fel rhan o'r cynnig am y gystadleuaeth?

Cwestiwn saith. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno tendr am gontractau ar sail gystadleuol o ran safon, gyda chostau teithio wedi'u cynnwys ar sail gystadleuol o ran pris?

Cwestiwn wyth. Ydych chi'n cytuno â'r tybiaethau a'r casgliadau a amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith? Cyflwynwch unrhyw dystiolaeth empirig arall sy'n ymwneud â'r cynigion yn y papur hwn.

Cwestiwn naw. O'ch profiad chi, a oes unrhyw grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchodedig y gallai'r cynigion yn y papur hwn effeithio arnynt yn benodol, naill ai mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol? Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

Cwestiwn deg. Yn eich barn chi, pa effaith gaiff pob cynnig ar gydraddoldeb unigolion â nodweddion gwarchodedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch ddata a rhesymau.

Cwestiwn un ar ddeg. Yn eich barn chi, pa effaith y mae'r cynigion hyn yn ei chael ar deuluoedd? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch ddata a rhesymau.

Diolch am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi eich hun

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rôl rydych chi'n ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (ee aelod o'r cyhoedd, ac ati)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch yma	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y nodyn cydnabyddiaeth ato, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych chi'n eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut mae ymateb

A fydddech cystal ag anfon eich ymateb erbyn 3 Ionawr 2020 at:

James Wrigley
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 2817
E-bost: james.wrigley@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copiau ychwanegol

Mae copiau ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Mae modd gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar fformatau eraill drwy gysylltu â [cyfeiriad e-bost/rhif ffôn yr is-adran polisi sy'n noddi].

Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn mewn [rhowch y dyddiad cyhoeddi, a ddylai fod cyn pen tri mis i ddyddiad cau yr ymgynghoriad, i'r graddau y mae hynny'n bosibl] mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y bydd eich ymateb, yn ogystal â'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol yn cael eu cyhoeddi pan fydd yr Adran yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yw'r rhain yn bennaf).

Mae'r llywodraeth yn credu ei bod hi'n bwysig, er mwyn tryloywder, fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a beth yw eu safbwyntiau. Hefyd, mae'n bosibl y bydd yr Adran yn dewis peidio â thynnu eich enw/manylion oddi ar eich ymateb yn nes ymlaen, er enghraifft, os byddwch chi'n newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os yw'r Adran yn credu y dylai'r manylion hynny fod ar gael yn gyhoeddus er budd y cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw/hunaniaeth gorfforaethol fod ar gael yn gyhoeddus fel hyn, fe'ch cynghorir i ymateb yn ddienw (er enghraifft, fel 'perchennog busnes lleol' neu 'aelod o'r cyhoedd'). Neu, gallech ddewis peidio ag ymateb.

Egwyddorion yr ymgynghoriad

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu er mwyn ennyn diddordeb rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaethau ar gael yn y ddogfen Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, yma:https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1__.pdf



© Hawlfraint y goron 2019

Mae'r cyhoeddiad wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar gael ar fformatau eraill drwy gysylltu â

y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Sifil Cymorth Cyfreithiol
10fed Llawr
102 Petty France Llundain
SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 2817
E-bost: james.wrigley@justice.gov.uk